**TGAU**

225/02

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN UWCH

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011

2½ awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.

Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

CJ*(S11-0225-02)

## ADRAN A

Darllenwch y **tri darn** ac yna atebwch y **tri chwestiwn**.

Darn Darllen 1: O Gymru i'r Himalaya
Darn Darllen 2: Agoriad llygad yn Kathmandu
Darn Darllen 3: Dyddiadur Gbara

- Darllenwch y darnau darllen a'r cwestiynau cyfan yn ofalus. Yna, atebwch y cwestiynau, gan ddefnyddio'r ffeithiau o'r darnau darllen yn unig.
- Wrth ateb dylech roi sylw i gywirdeb iaith a mynegiant. Rhoddir hyd at **20 marc** yn yr adran hon am ansawdd eich iaith a'ch mynegiant ar draws yr holl atebion.

**1. O Gymru i'r Himalaya (Darn Darllen 1)**
**Agoriad llygad yn Kathmandu (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(i) O ble yr oedd yr athrawon a aeth ar daith i Lalitpur yn dod? [2]
(ii) Beth wnaeth ysgolion Maes Hyfryd a Gellifor i helpu pentrefwyr yn Nepal? [2]
(iii) Beth oedd cyflog wythnos y plant oedd yn gweithio mewn ffatri frics? [1]

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** atebwch y cwestiynau hyn yn eich geiriau eich hun:

(iv) Beth oedd prif dasg Ceri a'i thîm yn Nepal? [1]
(v) Yn ôl Ceri, pa bethau oedd yn wahanol i fyw gartref? [2]
(vi) Pam roeddent yn dweud wrthynt am beidio â rhoi pres i blant y stryd? [2]

**[10]**

**2. O Gymru i'r Himalaya (Darn Darllen 1)**
**Agoriad llygad yn Kathmandu (Darn Darllen 2)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 1** a **Darn Darllen 2** ysgrifennwch eitem newyddion ar ffurf adroddiad ar gyfer radio/ teledu yn sôn am ymweliadau pobl o Gymru â Nepal (Himalaya a Kathmandu).

Dylech gynnwys gwybodaeth am:

- y cefndir – pwy, i ble a pham
- y sefyllfa a'r profiadau a gafwyd yn Nepal
- beth gafodd ei wneud yno. [18]

Ysgrifennwch ar ffurf **adroddiad**. [2]

*Defnyddiwch wybodaeth o **Ddarn Darllen 1** a **Darn Darllen 2** yn unig.*
*Dylech ddefnyddio **eich geiriau eich hun**.*

**[20]**

**3. Agoriad llygad yn Kathmandu (Darn Darllen 2)**
**Dyddiadur Gbara (Darn Darllen 3)**

Ar ôl darllen **Darn Darllen 2** a **Darn Darllen 3** cymharwch y ddau ddarn gan ddweud sut y maent yn debyg ac yn wahanol.

Dylech gyfeirio at y canlynol wrth ymdrin â'r ddau ddarn:

(i) cynnwys (cymharwch **dri** pheth o Ddarn Darllen 2 â **thri** pheth o Ddarn Darllen 3); [6]

(ii) ffurf, iaith, arddull a disgrifiadau (soniwch am **dair** nodwedd o Ddarn Darllen 2 a **thair** nodwedd o Ddarn Darllen 3). Dylech drafod effeithiolrwydd y ffurf, yr iaith, yr arddull a'r disgrifiadau. [18]

Rhoddir marciau i chi am **gymharu bwriadol a threfnus** yn adran (i) a (ii). [3]

Dylech gynnwys **dyfyniadau o'r ddau ddarn** i gefnogi'ch sylwadau yn adran (i) a (ii). [3]

*Peidiwch ag ymdrin â'r ddau ddarn darllen ar wahân.*

**[30]**

**[60 + 20 = 80]**

**TROSODD AR GYFER ADRAN B.**

## ADRAN B

**4.** Dewiswch **un** o'r testunau canlynol ac ysgrifennwch arno.
Nodwch rif y cwestiwn a thestun y gwaith.
Dylai eich ateb fod o leiaf **ddwy** ochr tudalen.
Meddyliwch a chynlluniwch eich gwaith yn ofalus.
Rhowch sylw manwl i ysgrifennu'n gywir.

**[20 + 20 = 40]**

*(a)* **STORI:**

Ysgrifennwch stori ar **un** o'r testunau canlynol:

**Naill ai:** 'Bydd yr atgofion gyda fi am weddill fy mywyd.'

**Neu:** 'Agoriad llygad!'

*Ceisiwch wneud yn siŵr bod eich stori yn ddiddorol a bod cymeriadau a digwyddiadau ynddi.*

*(b)* **YMSON:**

Ysgrifennwch **ddau** ymson – un ymson gan berson sy'n casglu arian at achos da ac ymson arall gan blentyn/ person ifanc, tlawd.

*Cofiwch ddychmygu mai chi yw'r personau hynny gan nodi eich meddyliau a'ch teimladau.*

*(c)* **LLYTHYR:**

Ysgrifennwch lythyr at ffrind yn disgrifio'r wlad lle rydych yn ymweld â hi.

*Gan gofio am ffurf y llythyr, disgrifiwch wahanol agweddau ar y wlad yn fanwl.*

*(ch)* **ARAITH** neu **ERTHYGL** yn **MYNEGI BARN** ar y testun:

Rydyn ni'n gwneud mwy na digon i helpu plant a phobl ifanc tlawd yn y byd!

*Medrwch gytuno neu anghytuno â'r gosodiad uchod. Ceisiwch fod yn drefnus a rhoi tystiolaeth i gefnogi eich pwyntiau a'ch barn bob tro.*

# TGAU

225/02-A

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
## HAEN UWCH

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011

2½ awr

**DEUNYDD DARLLEN AR GYFER ADRAN A I'W DDEFNYDDIO GYDA HAEN UWCH**


| | Tudalen |
|---|---|
| Darn Darllen 1 | 2 |
| Darn Darllen 2 | 3 |
| Darn Darllen 3 | 4 |

**DARN DARLLEN 1**

BBC Cymru Newyddion

bbc.co.uk

# O GYMRU I'R HIMALAYA

**Aeth athrawon o Ogledd Cymru i'r Himalaya i ddysgu am system addysg Nepal a datblygu cysylltiadau rhwng Nepal a Chymru.**



Mae plant Gellifor a Chynwyd wedi codi arian i adeiladu ysgol newydd yn Nepal.

Nod y daith oedd cryfhau cysylltiadau rhwng Sir Ddinbych a'r wlad fach lle mae mynyddoedd uchaf y byd.

Roedd yr athrawon wedi cyfarfod â gweinidog diwylliant y wlad, a'r nod yw gefeillio Sir Ddinbych â dinas Lalitpur. Mae'r athrawon yn gobeithio gwahodd pobl o Nepal i Eisteddfod Gydwladol Llangollen yn yr haf.

Aeth athrawon ysgolion yn Llangollen, Cynwyd, Prestatyn a Dinbych i nifer o ysgolion yn Lalitpur lle'r oedden nhw'n trefnu prosiectau cwricwlwm.

## GWEFR

Roedd Dilys Ellis o Ysgol Maes Hyfryd, Cynwyd, ar ei thaith am y pedwerydd tro i Nepal. "Mae 'na dlodi mawr yno ond cawsom gyfarfodydd da iawn eleni ac mae'n plant ni wedi dysgu cymaint am Nepal," meddai.



Gobaith y bartneriaeth yw gwella addysg i blant mewn rhannau tlawd o Nepal.

Dywedodd fod ysgolion Maes Hyfryd a Gellifor wedi helpu pentrefwyr yn Nepal i godi ysgol.

"Roedd yn wefr gweld yr adeilad â tho ar ei ben. Mae'n plant ni wedi gweithio'n galed iawn i godi arian at yr ysgol yn Jaleshwary ac mae'n wych gallu dangos lluniau o'r ysgol newydd iddyn nhw. Mae Nepal yn wlad dlawd lle mae'n rhaid talu am addysg i'r plant," meddai.

## YSGOL FRICS

Aeth y criw i ysgol frics yn Tikathali a gafodd ei sefydlu gan David Phoenix, Ymgynghorydd Celfyddydol Sir Ddinbych.

Roedd Mr Phoenix wedi gweld plant oedd yn gweithio mewn ffatri frics am gyflog o £1 y diwrnod. Penderfynodd sefydlu ysgol a fyddai'n cynnig addysg yn rhad ac am ddim i'r plant. Ar hyn o bryd, mae 183 o blant yno ac wyth o athrawon.



Gwlad dlawd: Nepal

"Dw i mor falch fod yr ysgol wedi datblygu cymaint ers iddi gael ei sefydlu," meddai Mr Phoenix.

"Rydan ni'n ehangu gorwelion disgyblion yn Sir Ddinbych ac yn Nepal drwy rannu diwylliant, iaith a thraddodiad. Mae'r gwaith dysgu oedolion a'r grŵp gwnïo yn arbennig o dda."

Dywedodd ei fod am lansio apêl i gasglu mwy o arian i godi adeilad newydd i'r ysgol.

"Mae taith yr athrawon yn enghraifft arall o sut y mae Sir Ddinbych yn datblygu cysylltiadau."

**DARN DARLLEN 2**

## Agoriad llygad yn Kathmandu



Deg wythnos yn gwirfoddoli dramor, a hynny am ddim. Mi wnes i gais a chael cyfweliad ym Manceinion. Ychydig wythnosau wedyn mi ges i wybod mod i'n mynd i Nepal.

Yr oedd treulio tri mis mewn cymuned dlawd yn Nepal yn brofiad a gafodd gryn effaith ar ferch ifanc o Gymru. Chwilio am swydd ar y we oedd Ceri Phillips rhyw ddiwrnod pan ddigwyddodd ddod ar draws hysbyseb gan y cynllun gwirfoddoli *Platform 2*. 'Roedd y cynnig yn un arbennig, bron na allwn i gredu'r peth,' meddai Ceri, sydd newydd ddychwelyd adref i Lanrwst.

Tra oeddynt yn Nepal, prif dasg Ceri a'i thîm oedd adeiladu canolfan addysg ym mhentref Lamatar, rhyw wyth milltir o Kathmandu. Yr oeddynt hefyd yn cynnal dosbarthiadau i'r plant gyda'r nos. Am y deg wythnos yr oedd yno, cafodd Ceri ei mabwysiadu gan deulu Nepoli a'i chroesawu i'w cartref, a oedd yn brofiad cwbl unigryw, meddai Ceri.

Mi roedd o'n hollol wahanol i fyw adra.
Mi roedden nhw'n gweddïo'n aml ac mi roedd yna lawer iawn o reolau.

Bob penwythnos byddai'r criw yn cael y cyfle i grwydro Kathmandu ac ymweld â rhai o leoliadau enwocaf y ddinas, gan gynnwys teml y mwncïod. Ond ohonynt i gyd, mae'n debyg mai'r olygfa a adawodd yr argraff fwyaf ar Ceri oedd gweld y cannoedd a oedd yn byw ar y strydoedd yno.

'Mi roedd yna lot o blant yn byw ar y stryd,' meddai Ceri, 'roedd gan sawl un ohonyn nhw broblemau meddyliol. Mi roedden nhw'n dweud wrthan ni am beidio rhoi pres iddyn nhw, achos y byddan nhw'n ei ddefnyddio fo i brynu gliw i'w anadlu. Er bod y gymdeithas roedden ni'n byw ynddi yn dlawd, roedden nhw'n ymddangos yn hapus. Mi roedd Kathmandu yn agoriad llygad.'

Bu'r gwirfoddolwyr yn ymweld â chartref plant amddifad yn ystod eu hymweliad, a chododd calon Ceri ryw gymaint o weld y gofal yr oedd y plant yn ei dderbyn yno. Ond cafodd gryn sioc pan sylweddolodd nad oedd y plant yno yn amddifad mewn gwirionedd.

'I gael eu derbyn i'r cartref mae'n rhaid fod gan un o rieni'r plant neu aelod o'r teulu ddogfennau swyddogol,' meddai Ceri. 'Heb ddogfennau, chewch chi ddim bod yn ddinesydd a chewch chi ddim eich derbyn i'r gymdeithas yn Nepal, ac mae yna sawl un yn cael ei eithrio achos hyn. Mae'r wlad yn derbyn arian gan Fanc y Byd, ond oherwydd nad ydy'r llywodraeth yn sefydlog, dydyn nhw ddim yn gwario'r arian yn gywir, ac felly mae addysg ac iechyd yn wael iawn,' meddai.

Er ei bod yn gweld bod gwaith teilwng iawn yn cael ei wneud yn Nepal, dywed Ceri ei bod yn amheus faint o'r arian sydd yn cael ei roi i'r llywodraeth sydd yn cyrraedd y bobl eu hunain. Yn ôl Ceri, mae profi tlodi erchyll Nepal wedi newid ei hagwedd at fywyd. Byddai wrth ei bodd yn dychwelyd yno i weithio gydag elusen sydd yn helpu plant y stryd yn Kathmandu.

(Y Cymro 2 Ebrill 2010)

**DARN DARLLEN 3**

Rhannau o'r gyfrol **Dyddiadur Gbara** gan Bethan Gwanas.

Treuliodd Bethan Gwanas gyfnod o ddau dymor o wasanaeth *VSO (Voluntary Services Overseas)* yn Gbara, Nigeria, fel athrawes Saesneg, ac ysgrifennodd am rai o'i phrofiadau yn ei dyddiadur, tra oedd yno.

**Hydref 18, 1984**
Mae gan bobol y pentref yma agwedd hyfryd at fywyd. Maen nhw byth a hefyd yn gwenu a chwerthin. O, maen nhw'n ffraeo a chega weithie, ond mae'n anodd cymryd unrhyw ffrae o ddifri yma, gan fod cynulleidfa yn ymgynnull o fewn dim a rhowlio chwerthin wrth wrando ar y cega, nes y bydd y rhai sy'n destun sbort yn dechra pwffian chwerthin hefyd.

Y plant sy'n codi hwyliau rhywun. Cawson nhw hwyl ar fy mhen i yn yr ysgol heddiw. Roedd gen i wers ddwbwl efo 3A am 10.40, ond ro'n i'n meddwl mai am ddeg oedd hi, a cherddais i mewn i'r stafell anghywir beth bynnag, lle fues i'n dysgu 4A am awr a chwarter cyn i un o ddosbarth 3 ddod i chwilio amdana' i! Roeddwn i'n teimlo'n hurt, was bach, ond dwi'n fflatyrd. 'Pam na fasech chi wedi deud?' holais. 'Roedden ni'n mwynhau'r wers, Miss!' oedd yr ateb.

Maen nhw i gyd yn ddisgyblion hynod annwyl, ond rargol, ma 'na rai mor ddiog, ac eraill yn amlwg heb gael unrhyw fath o addysg ffurfiol tan rŵan. Mae 'na eraill wedyn sy'n llyncu bob gair dw i'n ddeud a'u llygaid yn serennu arna' i, yn awchu am glywed a dysgu mwy. Mae'r oedran yn amrywio'n arw o fewn bob dosbarth, ac ambell un yn ddigon hen i fod yn dad i'r boi sydd wrth ei ochr. Roeddwn i'n gorfod gwenu pan sylwais i fod 'na grysau efo labeli *Age 12* yn gwenu'n braf ar gefnau 'hogiau' sydd yn nes at dri deg chwech!

**Ionawr 14, 1985**
Mae'r amserlen wedi cael ei newid am y pedwerydd tro mewn wythnos, ond o leia' mae gen i ddeunaw gwers rŵan yn lle'r ddeuddeg bathetig oedd gen i'n wreiddiol. Mae 'na ddeg athro wedi gadael a neb wedi dod i gymryd eu lle, felly mae pawb arall yn cael mwy o wersi, ac o'r diwedd, dw i'n cael dysgu dosbarth un! Maen nhw'n gariadon bach, efo llygaid anferthol a gwenau mwy, yn rhyfeddol o ofnus a swil ar y dechra, ond bellach yn rhedeg i 'nghyfarfod i bob tro, yn chwerthin a chlwcian. Does gan eu hanner nhw 'run llyfr na beiro ond maen nhw'n cofio yn eitha' da o un wers i'r llall.

Mae eu dosbarthiadau nhw ym mhen arall y pentre', yn yr ysgol gynradd, sydd ddim cweit mor fodern â'r ysgol uwchradd. Mae 'na dipyn o dyfiant o gwmpas yr adeilad hefyd, a phan o'n i ar ganol gwers ddoe, gwaeddodd un hogyn bach *'Snake, Miss!'* Roedd 'na neidr oren a brown yn araf wau ei ffordd drwy'r drws ata' i. Dw i erioed wedi symud mor gyflym yn fy myw. Roeddwn i ar ben y ffenest bella' mewn chwinciad a 'nghalon yn pwmpio, was bach. Ond rhedeg allan a wnaeth criw o'r hogia a dod 'nôl efo cerrig a *phledu'r creadur druan nes roedd o'n rhacs ac yn farw gelain. Wedyn edrychodd pawb arna' i'n crynu yn y gornel a chwerthin llond eu boliau.

*pledu – taflu cerrig

**TGAU**

225/02-B

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF
# *WELSH: FIRST LANGUAGE*

**HAEN UWCH**
***HIGHER TIER***

A.M. DYDD IAU, 9 Mehefin 2011
*A.M. THURSDAY, 9 June 2011*

2½ awr
*2½ hours*

| **Er gwybodaeth i'r Swyddog Arholiadau**<br>***For the attention of the Examinations Officer*** |
|---|

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.
Deunydd Darllen ar gyfer Adran A.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **tri** chwestiwn o Adran A ac **un** cwestiwn o Adran B.

Ceisiwch gwblhau Adran A mewn tua 1¾ awr er mwyn sicrhau bod gennych o leiaf ¾ awr i gwblhau cwestiwn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarparwyd.

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau a geir mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

***ADDITIONAL MATERIALS***

*A 12 page answer booklet.*
*Reading Material for Section A.*

***INSTRUCTIONS TO CANDIDATES***

*Use black ink or black ball-point pen.*

*Answer the **three** questions in Section A and **one** question in Section B.*

*You are advised to spend approximately 1¾ hours on Section A so that you may spend at least ¾ hour on Section B.*

*Write your answers in the answer booklet provided.*

*Dictionaries are not permitted in this examination.*

***INFORMATION FOR CANDIDATES***

*The number of marks is given in brackets at the end of each question or part-question.*